

Straeon Mudo Caerdydd

Naran

Llun - diolch i Naran Patel. Hawlfraint Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen

Mae Naran yn 67 oed (2015).

"Cefais fy ngeni yn India, a phan oeddwn i'n ddau oed es i i Kenya a byw yno am amser hir. Des i yma ym 1971". Daeth Naran yma pan oedd yn 26 oed. Roedd yn byw yn Grangetown. Cyrhaeddodd ei chwaer yma 7-8 mis cyn iddi hi wneud.

Mae'n cofio meddwl bod Caerdydd yn lle oer iawn.

Mae Naran yn Hindŵ sy'n mynd i'r deml i addoli: "Rwy'n mynd yno bob dydd". Helpodd i sefydlu Teml Shree Swaminaryan yn Grangetown.

"Mae un chwaer gen i yma, mae'r ddwy arall yn India. Mae fy mrawd yma hefyd. Ymddeolodd ei rieni yn India ond bu iddynt farw".

"Roedd tri theulu mewn tŷ, felly roedden ni'n rhannu popeth a gofynnais i mam 'pam ydyn ni yma? Allwn ni fynd adref?' ond dywedodd hi 'hwn yw eich cartref newydd'."

"Cafodd Kenya annibyniaeth. Mae'r llywodraeth yn dweud na alla i aros yno am fod gen i basbort Prydeinig. Roeddwn i'n ddinesydd Prydeinig. Roeddwn i'n athro yno, felly dywedon nhw fod yn rhaid i athrawon fod yn ddinasyddion neu fel arall adael y wlad".

Dywed Naran fod fwy o swyddi ym Mhrydain nag yn Kenya.

"Roeddwn i'n athro yn Kenya. Pan ddes i yma doeddwn i ddim yn hoffi dysgu felly newidiais fy mhroffesiwn a dod yn archwiliwr trethi."

Mae Naran yn mynd i India bob blwyddyn am tua thair neu bedair wythnos. Gan ei fod wedi ymddeol gall dreulio amser yno nawr.

Mae Naran yn siarad pedair iaith a gallai siarad Saesneg cyn dod i Brydain. Gallai siarad Swahili, Hindi a Gujarati.